

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod Arbennig Hybrid a gynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2026 am 6:15 p.m.

Mae'r agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd Carys Stallard (Dirprwy Faer yn y Gadair);
Y Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Amelia Collins, Marianne Cowpe, Brandon Dodd, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci-Williams, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Neil Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

554 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Gynghorwyr Naomi Marshallsea (Maer) a Rhys Thomas.

555 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

556 CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 8 Ionawr, 2026 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan yr Arweinydd, a ofynnodd i'r Cyngor gytuno i ail-fabwysiadu'r cynllun a oedd wedi bod ar waith ers 2013 ac yr oedd angen ei gymeradwyo erbyn 31 Ionawr.

Rhannodd y disgrisiynau yr oedd angen eu cymhwyso gan gynnwys:

- Y dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Taliadau Estynedig hyd at uchafswm o 4 wythnos;
- Y dylai'r Cyngor barhau i anwybyddu pensiynau Gweddwon Rhyfel ac Anabled Rhyfel wrth asesu incwm ar gyfer Gostyngiad Treth y Cyngor;
- Y dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Gostyngiadau Ôl-ddyddio am gyfnod hyd at 26 wythnos.

PENDERFYNWYD –

- (1) Bod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) OS 2013/3029 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2014 O.S. mabwysiadu 2014/66.
- (2) Bod unrhyw ddiwygiadau i Reoliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru a adlewyrchir yn y cynllun yn cael eu nodi.
- (3) Bod y cynllun cenedlaethol yn cael ei fabwysiadu gyda'r disgresiwn a ganlyn:
 - Y dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Taliadau Estynedig hyd at uchafswm o 4 wythnos.
 - Y dylai'r Cyngor barhau i anwybyddu pensiynau Gweddwon Rhyfel ac Anabledd Rhyfel wrth asesu incwm ar gyfer Gostyngiad Treth y Cyngor.
 - Y dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Gostyngiadau Ôl-ddyddio am gyfnod hyd at 26 wythnos.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn galluogi'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor i gael ei gymeradwyo a'i roi ar waith i'w weithredu o 1 Ebrill, 2026.
- (2) Sicrhau bod cynllun y Cyngor yn cydymffurfio â rheoliadau.
- (3) Ailgadarnhau'r tri disgresiwn lleol.